## Atodiad 1:

# Safonau'r Gymraeg

# Adroddiad Monitro Blynyddol

# 2024-2025

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

**This document is available in English.**

# Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg 2024 - 2025

**Cynnwys**


Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg 2024 - 2025 ... 2
Cyflwyniad ... 4
Cefndir – fframwaith rheoleiddio a chyd-destun cyfreithiol ... 5
Cwynion ... 6
Recriwtio ... 11
Sgiliau Cymraeg ... 12
Hyfforddiant Cymraeg ... 20
Cyflawniadau a Chydymffurfio ... 25
Wefan ... 25
Hyb Cymraeg ... 25
Cyfrathebu ... 26
Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol ... 26
Canolfan Gyswllt a Phrif Dderbynfeydd ... 28
Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ... 28
Safonau Llunio Polisi ... 29
Safonau Recriwtio ... 29
Cytundeb Cyfieithu ... 29
Cyfieithu Cyflym ... 32
Gwiriwr sillafu a throedynnau e-bost Cymraeg ... 33
Adolygiad o'r Polisi a'r Strategaeth Caffael ... 33
Cyfleusterau ... 34
Ymwybyddiaeth ddiwylliannol ... 34
Mwy Na Geiriau ... 35
Dysgu Cymraeg y Fro ... 35
Menter Bro Morgannwg ... 38
Ysgolion ... 45
Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg CSCA ... 46
Phencampwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol ... 47
Fforwm y Fro ... 47

Grwpiau eraill ........................................ 48
Adolygiad Comisiynydd y Gymraeg ........................................ 48
Y camau nesaf ........................................ 49
Cysylltwch â ni ........................................ 49

## Cyflwyniad

Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth gwych i siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ac mae’n ymdrechu flwyddyn ar ôl blwyddyn i wella’r gwasanaeth hwnnw.

Yn ystod 2015, cawsom Hysbysiad Cydymffurfio cyfreithiol gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi pa Safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor.

Er mwyn cyflawni'r 174 o safonau yn yr hysbysiad, datblygodd y Cyngor Gynllun Gweithredu sydd wedi’i gyhoeddi ar ein gwefan.

Mae'r safonau'n cael eu grwpio yn 5 categori:

- Darparu Gwasanaeth
- Llunio Polisi
- Gweithredol
- Hyrwyddo
- Cadw Cofnodion

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- Lunio, a chyhoeddi ar ein gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy’n nodi sut rydym yn bwriadu hyrwyddo’r Gymraeg a hwyluso’r defnydd ar y Gymraeg yn ehangach yn ein hardal. (Safonau 145, 146).
- Llunio adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau, ac yna ei gyhoeddi ar ein gwefan. (Safonau 158, 164, 170).

Gwnaethom hefyd gyhoeddi Strategaeth Hybu 5 mlynedd ar gyfer 2022-27 fel rhan o'r broses gydymffurfio. Mae hon ar gael ar ein gwefan. Mae manylion y cynnydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

## Cefndir – fframwaith rheoleiddio a chyd-destun cyfreithiol

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn yn dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac aelodau staff.

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn adrodd gwybodaeth am bob mesur sy'n fesur statudol cenedlaethol ac mae'n pennu targedau ar ei gyfer. Rydym hefyd wedi mabwysiadu nifer gyfyngedig o ddangosyddion lleol sy'n cynorthwyo'r gwaith o fesur cynnydd yn erbyn y cynllun hwn. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus drwy Gynllun Gwella'r Cyngor a thrwy gynlluniau gwasanaethau, sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ac sydd ar gael ar wefan y Cyngor - www.bromorgannwg.gov.uk

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r adroddiad hwn yn adran Cydraddoldeb gwefan y Cyngor ynghyd â data arall am faterion iaith.

Rydym yn adrodd ar ddangosyddion yn y pedwar maes canlynol yn unol â chais Comisiynydd y Gymraeg:

- Cwynion
- Recriwtio
- Sgiliau'r Gymraeg
- Hyfforddiant Cymraeg

Rydym hefyd yn adrodd ar weithgareddau eraill sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ogystal â'n cyflawniadau o dan ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

## Cwynion

**Safonau 158 (2) 164 (2) 170 (2d)**

Rhaid i ni gadw cofnod o nifer y cwynion sy’n dod i law sy’n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Am y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, cawsom chwe chwyn oedd yn ymwneud â'r Gymraeg.

| | |
|---|---|
| Cwynion gan Gomisiynydd y Gymraeg | 2 |
| Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i Swyddog y Gymraeg | 3 |
| Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i system gwyno gorfforaethol y Cyngor | 1 |

### Cwynion a wnaed drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Rydym wedi derbyn dwy cwyn drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Nid ymchwiliad swyddogol yw un o'r rhain, ond awgrym i'w ystyried ymhellach. Nid ydynt yn cymryd unrhyw gamau pellach ar yr ail gŵyn, ac mae'r drydedd yn mynd rhagddi o hyd.

| Dyddiad derbyn | Natur y gŵyn | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| 06/07/2024 | Roedd y gŵyn yn ymwneud ag ystod o faterion i deulu sy'n siarad Cymraeg sy'n defnyddio Gwasanaethau Plant a sut roedd hyn wedi effeithio ar benderfyniadau.<br><br>Cawson ni ddau e-bost ar wahân gan y cwsmer am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r gwasanaeth | Gwnaethon ni gadarnhau gyda'r Comisiynydd ar 11/07/2024 fod y cwsmer hefyd wedi cyflwyno cwyn trwyddyn nhw. Gwnaethon ni gadarnhau y bydden ni’n delio â'r cyfan fel un gŵyn.<br><br>Mae'r cwsmer wedi cyflwyno cwyn yn uniongyrchol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol |

| | | |
|---|---|---|
| | roedden nhw wedi ei gael yn Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys rhai materion llai fel camsillafu enw yn ogystal â honiadau ehangach eraill bod eu geiriau wedi eu cam-gynrychioli a'u camddeall oherwydd y Gymraeg yw eu hiaith gyntaf.  Gwnaethon nhw gŵyn hefyd i Gomisiynydd y Gymraeg a gododd faterion eraill gan gynnwys diffyg staff â sgiliau Cymraeg, diffyg cyfieithwyr, peidio â chael dogfennau/llythyrau yn Gymraeg, a dewis iaith. | hefyd am ystod o faterion eraill. Mewn cyfarfodydd â staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, gwnaethon ni egluro y byddai'r ymchwiliad i'r Gymraeg yn canolbwyntio ar yr elfennau Cymraeg a godwyd gan y Comisiynydd yn unig. Rydyn ni wedi cael sawl cyfarfod â’r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae rhai newidiadau wedi eu gweithredu yn barod, gan gynnwys cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. Cawson ni yr adroddiad drafft a'r penderfyniad ym mis Mawrth 2025. Nid ydyn ni o’r farn bod y crynodeb o’r gŵyn a'r canfyddiadau yn gwbl gyson â chofnodion y Gwasanaethau Cymdeithasol, ond mae'r camau a argymhellir a'r penderfyniad yn deg ar y cyfan, felly gwnaeth ein sylwadau ganolbwyntio ar beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yma a beth rydyn ni’n bwriadu ei wneud: canllawiau ynghylch cyfarfodydd, cyfieithu, dewis iaith, a chodi ymwybyddiaeth. Rydyn ni’n aros am yr adroddiad terfynol. |

| | | |
|---|---|---|
| 09/12/2024 | Roedd y gŵyn yn ymwneud â diffyg what3words Cymraeg ar arwyddion diogelwch ar lwybr arfordirol y Fro a osodwyd yn 2024. | Gwnaethon ni gadarnhau gyda'r Comisiynydd mai cwyn ar wahân i ymholiad roedden nhw wedi ei chael am yr arwyddion ym mis Ebrill 2024 oedd hon. Mae Cefn Gwlad, Adfywio a Chynllunio wedi cadarnhau ei fod yn brosiect ar y cyd â'r Heddlu, Gwylwyr y Glannau, Arfordir Treftadaeth, y GIG, a'r Fro i gynhyrchu a gosod yr arwyddion. Yr Heddlu gafodd y what3words. Doedd neb a oedd yn rhan o'r prosiect yn ymwybodol bod 3words ar gael yn Gymraeg. Dywedodd swyddog y Comisiynydd i ni gadarnhau amserlen ar gyfer gweithredu posibl (i ychwanegu sticeri gyda what3words Cymraeg) ac felly, ni fydd yn mynd ar drywydd hyn fel ymchwiliad llawn. |

## Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i'r Cyngor

Rydym wedi derbyn pedair cwyn gan aelodau o'r cyhoedd.  Daeth un gŵyn drwy system gwyno gorfforaethol y Cyngor a chafodd tair gŵyn eu e-bostio'n uniongyrchol at Swyddog y Gymraeg.

| **Dyddiad derbyn** | **Natur y gŵyn** | **Camau a gymerwyd** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| 08/04/2024 | Roedd y gŵyn yn ymwneud ag e-bost gan Legacy Leisure a oedd yn Saesneg yn unig. | Cadarnhaodd Legacy Leisure / Parkwood fod yr e-bost wedi dod gan aelod o staff ym Mhwll Rhyngwladol Caerdydd, felly nid yw'n fater i Fro Morgannwg. |
| 12/04/2024 | Roedd y gŵyn yn ymwneud â'r ffurflen archebu ar-lein ar gyfer Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Llandŵ gan fod rhan o'r ffurflen yn Gymraeg, ac roedd y defnyddiwr eisiau ei llenwi yn Saesneg yn unig. | Siaradodd y Golygydd Gwe a'r tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid â Zipporah a gwirio'r porth i sicrhau bod bwydlenni a chynnwys yn yr iaith gywir. |
| 01/05/2024 | Roedd y gŵyn yn ymwneud â chyfathrebiadau e-bost gan y Gwasanaeth Mabwysiadu a oedd yn ddwyieithog. Mae'r cwsmer yn dymuno derbyn cyfathrebiadau Saesneg yn unig. | Gwnaethon ni egluro bod y ddau e-bost yn gylchlythyrau felly eu bod yn dod o dan Safon 4, hynny yw, mae'n rhaid iddyn nhw gael eu hanfon yn ddwyieithog ac nid yw dewis iaith yn berthnasol yn y sefyllfa hon. Dywedodd y cwsmer hefyd nad yw'n cydsynio i dderbyn cyfathrebiadau Cymraeg na dwyieithog ac felly, mae'n credu bod y Cyngor yn mynd yn groes i'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (PECR).<br><br>Cadarnhaodd y Comisiynydd fod yr e-byst wedi'u hanfon yn ddwyieithog yn gywir. Nid |

| | | |
|---|---|---|
| | | oedd gan y Comisiynydd unrhyw arweiniad ynghylch y PECR. |
| 05/03/2025 | Cafodd y gŵyn hon ei gwneud drwy'r system gwyno gorfforaethol ac mae'n ymwneud ag ymatebion awtomataidd dwyieithog o'r porth ar-lein ar ôl tanysgrifio i'r gwasanaeth gwastraff gardd. Dyma'r un achwynydd ag uchod – mae'r cwsmer yn dymuno derbyn cyfathrebiadau Saesneg yn unig. | Gwnaethon ni gwrdd â chydweithwyr Gwasanaeth Cwsmeriaid a Digidol a gadarnhaodd fod ymatebion awtomatig Cymraeg a Saesneg ar wahân yn bosibl ond eu bod y tu hwnt i beth mae'r adnoddau a'r systemau presennol yn ei ganiatáu, ac yn groes i bolisi'r Cyngor.<br><br>Gwnaethon ni gadarnhau gyda'r Comisiynydd mai ymatebion dwyieithog yw'r arfer gorau, yn cyd-fynd â'r safonau, ac yn sicrhau ein bod yn osgoi'r risg o ddiffyg cydymffurfio. O ran y Ddeddf Cydraddoldeb a'r PECR, mae'r Comisiynydd yn hapus nad ydyn ni'n mynd yn groes i'r naill na'r llall.<br>Gwnaethon ni roi gwybod i'r cwsmer ein bod ni wedi manteisio ar y cyfle i gryfhau ein sefyllfa bolisi ynglŷn ag ymatebion dwyieithog drwy ychwanegu at y Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwnaethon ni hefyd gadarnhau nad ydyn ni'n mynd yn groes i'r PECR na'r Ddeddf Cydraddoldeb. |

Rydym yn parhau i wneud cynnydd ar gamau gweithredu a argymhellwyd yn sgil ymchwiliadau eraill.

## Recriwtio


**Safonau 154, 170 (ch)**

Rhaid i ni adrodd am nifer y swyddi newydd a gwag sydd wedi'u categoreiddio'n Gymraeg hanfodol a dymunol.

Mae ein proses ymgeisio am swydd ar gael yn Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg ac mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog. Rydym hefyd wedi ceisio hysbysebu ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar wefannau Cymraeg penodol yn ogystal â gweithio gyda'n partneriaid yn Dysgu Cymraeg y Fro a Menter Bro Morgannwg i rannu ein swyddi gwag.

Fel rhan o'r broses recriwtio, a gofyniad Safon 136, rhaid asesu pob swydd wag am angen sgiliau Cymraeg. Ein nod yw categoreiddio pob swydd wag newydd fel un Cymraeg dymunol o leiaf.

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr hysbysebion sydd wedi'u cofnodi | 670 | 100% |
| Sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 14 | 2.1% |
| Sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 656 | 97.9% |
| Sgiliau Cymraeg i'w dysgu wrth benodi i swydd | 0 | 0.0% |




Mae'r rhan fwyaf o rolau Cymraeg ar gyfer swyddi athrawon Cymraeg, tiwtoriaid oedolion Cymraeg, neu rolau eraill o fewn ysgolion Cymraeg.

Rydym yn parhau i weithio gyda staff Adnoddau Dynol i sicrhau bod ein prosesau recriwtio yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol.


## Sgiliau Cymraeg

**Safon 170 (2a)**

Mae'n rhaid i ni fonitro ac adrodd ar nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg yn y Cyngor.

Mae'r dangosydd hwn yn cael ei fesur trwy hidlo data staff o Fusion, y platfform adnoddau dynol newydd. Gall staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a diweddaru'r wybodaeth hon yn eu manylion personol ar Fusion. Mae porth gweithwyr Fusion yn cipio a chofnodi sgiliau iaith y staff. Mae hyn wedi dileu'r angen am arolwg sefydliad cyfan. Mae Adnoddau Dynol wedi cyfathrebu drwy e-bost a Staffnet yr angen i ddiweddaru gwybodaeth bersonol.

Gwnaethon ni lansio Asesiad Sgiliau Cymraeg ym mis Ionawr 2025. Cafodd hyn ei wneud drwy Ffurflen Microsoft felly nid yw wedi effeithio ar adroddiadau Fusion, oni bai bod aelodau staff wedi diweddaru eu sgiliau Cymraeg ar Fusion ar ôl cwblhau'r Asesiad Sgiliau Cymraeg. Mae’r Asesiad Sgiliau ar gael i’w weld yma. Mae cyfanswm o 136 o aelodau staff wedi cwblhau'r asesiad sgiliau ar 31 Mawrth 2025:






Ynghyd â'r Asesiad Sgiliau, gwnaethon ni hefyd greu Fframwaith Sgiliau Cymraeg i'w gwneud hi'n haws i staff hunanasesu eu galluoedd Cymraeg yn fwy cywir. Cafodd y Fframwaith Sgiliau ei greu gan gyfeirio at y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, canllawiau Comisiynydd y Gymraeg, a chymorth gan awdurdodau eraill. Mae'r Fframwaith Sgiliau ar gael i'w weld yma.

Rydym yn cadw cofnodion staff sydd â sgiliau Cymraeg o dan Safon 151.

## Sgiliau staff ar draws y pedwar categori (Darllen, Ysgrifennu, Deall, Siarad)

Mae hyn yn dangos cyfanswm nifer y staff yn y chwe chyfarwyddiaeth sydd wedi nodi Sylfaenol, Cymwys, Da, Rhugl, Dim neu Heb Gofnodi ym mhob un o'r pedwar categori (hy 'sylfaenol' ar gyfer darllen, ysgrifennu, deall a siarad).






## Sgiliau staff – darllen

| | Sylfaenol | Cymwys | Yn fodlon | Rhugl | Dim | Heb ei gofnodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu a Sgiliau** | 54 | 5 | 3 | 25 | 88 | 96 | 271 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | 151 | 10 | 9 | 34 | 308 | 272 | 784 |
| **Amgylchedd a Thai** | 98 | 10 | 6 | 21 | 326 | 306 | 767 |
| **Adnoddau** | 79 | 10 | 7 | 14 | 147 | 101 | 358 |
| **Lle** | 20 | 2 | 3 | 7 | 45 | 34 | 111 |
| **Cyfanswm** | 402 | 37 | 28 | 101 | 914 | 809 | 2291 |

## Sgiliau staff – ysgrifennu

| | Sylfaenol | Cymwys | Yn fodlon | Rhugl | Dim | Heb ei gofnodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu a Sgiliau** | 49 | 4 | 2 | 24 | 95 | 97 | 271 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | 113 | 8 | 11 | 30 | 347 | 275 | 784 |
| **Amgylchedd a Thai** | 74 | 6 | 4 | 18 | 357 | 308 | 767 |
| **Adnoddau** | 58 | 8 | 6 | 12 | 171 | 103 | 358 |
| **Lle** | 17 | 2 | 2 | 7 | 49 | 34 | 111 |
| **Cyfanswm** | 311 | 28 | 25 | 91 | 1019 | 817 | 2291 |


## Sgiliau staff – siarad

| | Sylfaenol | Cymwys | Yn fodlon | Rhugl | Dim | Heb ei gofnodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu a Sgiliau** | 67 | 4 | 2 | 25 | 79 | 94 | 271 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | 189 | 8 | 8 | 30 | 275 | 274 | 784 |
| **Amgylchedd a Thai** | 105 | 8 | 4 | 21 | 325 | 304 | 767 |
| **Adnoddau** | 88 | 5 | 6 | 14 | 144 | 101 | 358 |
| **Lle** | 26 | 1 | 3 | 7 | 40 | 34 | 111 |
| **Cyfanswm** | 475 | 26 | 23 | 97 | 863 | 807 | 2291 |

## Sgiliau staff - deall


| | Sylfaenol | Cymwys | Yn fodlon | Rhugl | Dim | Heb ei gofnodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu a Sgiliau** | 76 | 3 | 5 | 25 | 69 | 93 | 271 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | 212 | 6 | 9 | 37 | 254 | 266 | 784 |
| **Amgylchedd a Thai** | 139 | 7 | 6 | 22 | 302 | 291 | 767 |
| **Adnoddau** | 106 | 7 | 6 | 19 | 119 | 101 | 358 |
| **Lle** | 30 | 2 | 2 | 8 | 35 | 34 | 111 |
| **Cyfanswm** | 563 | 25 | 28 | 111 | 779 | 785 | 2291 |




At ei gilydd, mae 25.9% o weithlu'r Cyngor wedi nodi sgiliau Cymraeg, yn amrywio o sylfaenol i rugl. Mae 6.3% wedi nodi sgiliau siarad cymwys, da neu rugl. Mae hyn yn lai na'r ganran a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2021 o drigolion Bro Morgannwg sy'n gallu siarad Cymraeg, sef 11.5%.


Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r llynedd, pan nododd 16.9% o weithlu'r Cyngor fod ganddyn nhw sgiliau Cymraeg yn amrywio o sylfaenol i rugl a dywedodd 5.2% o'r gweithlu fod ganddyn nhw sgiliau siarad Cymraeg cymwys, da neu rugl.

Mae'r ffigurau hyn i gyd yn dibynnu ar aelodau staff yn hunanasesu eu sgiliau Cymraeg yn eu cyfrif Fusion ac felly efallai na fyddant yn gyflawn.





## Data o’r Asesiad Sgiliau Cymraeg

Mae hyn yn dangos cyfanswm nifer y staff yn y pump chyfarwyddiaeth. Fel sy’n cael ei ddangos, Sylfaenol yw'r lefel sgiliau mwyaf cyffredin ar gyfer pob maes.





Mae’r siart canlynol yn dangos cyfanswm y staff ym mhob cyfarwyddiaeth sydd wedi nodi Dim, Sylfaenol, Cymwys, Da, neu Rugl ym mhob un o’r pedwar categori (er

enghraifft, 'sylfaenol' ar gyfer darllen, ysgrifennu, deall a siarad). Sylwch - does neb wedi dewis Da ym mhob un o'r pedwar categori, felly mae'r siart yn dangos y rhai a ddewisodd Dda mewn o leiaf ddau gategori.




O'r gweithlu sydd wedi ymateb i'r Asesiad Sgiliau, nododd 85.6% o'r gweithlu sgiliau Cymraeg yn amrywio o sylfaenol i rugl+, a nododd 37.6% o’r gweithlu sgiliau siarad Cymraeg cymwys, da neu rugl. Mae hyn yn uwch na'r ganran a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2021 o drigolion Bro Morgannwg sy'n gallu siarad Cymraeg, sef 11.5%.




### Siarad

| | Dim | Syfaenol | Cymwys | Da | Rhugl | Rhugl+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | 6 | 21 | 6 | 3 | 6 | 3 | 45 |
| **Amgylchedd a Thai** | 1 | 13 | 2 | 1 | 3 | 0 | 20 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu a Sgiliau** | 2 | 10 | 3 | 1 | 0 | 6 | 22 |
| **Lle** | 0 | 8 | 2 | 1 | 3 | 2 | 16 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | 4 | 21 | 4 | 2 | 1 | 1 | 33 |
| **Cyfanswm** | 13 | 73 | 17 | 8 | 13 | 13 | 136 |

### Ysgrifennu

| | Dim | Sylfaenol | Cymwys | Da | Rhugl | Rhugl+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | 9 | 20 | 5 | 4 | 4 | 3 | 45 |
| **Amgylchedd a Thai** | 2 | 13 | 2 | 0 | 3 | 0 | 20 |
| **Dysgu a Sgiliau** | 4 | 9 | 2 | 2 | 0 | 5 | 22 |
| **Lle** | 1 | 7 | 2 | 2 | 4 | 0 | 16 |
| **Gwasanathau Cymdeithasol** | 4 | 20 | 7 | 0 | 2 | 0 | 33 |
| **Cyfanswm** | 20 | 69 | 18 | 8 | 13 | 8 | 136 |

### Darllen

| | Dim | Sylfaenol | Cymwys | Da | Rhugl | Rhugl+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | 7 | 19 | 7 | 3 | 5 | 4 | 45 |
| **Amgylchedd a Thai** | 2 | 10 | 1 | 3 | 4 | 0 | 20 |
| **Dysgu a Sgiliau** | 4 | 8 | 2 | 2 | 0 | 6 | 22 |
| **Lle** | 0 | 6 | 3 | 3 | 3 | 1 | 16 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | 5 | 19 | 4 | 2 | 3 | 0 | 33 |
| **Cyfanswm** | 18 | 62 | 17 | 13 | 15 | 11 | 136 |

### Deall

| | Dim | Sylfaenol | Cymwys | Da | Rhugl | Rhugl+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | 6 | 19 | 7 | 2 | 7 | 4 | 45 |
| **Amgylchedd a Thai** | 0 | 12 | 3 | 1 | 3 | 1 | 20 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu a Sgiliau** | 4 | 7 | 4 | 1 | 0 | 6 | 22 |
| **Lle** | 0 | 6 | 3 | 2 | 3 | 2 | 16 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | 5 | 18 | 6 | 2 | 1 | 1 | 33 |
| **Cyfanswm** | 15 | 62 | 23 | 8 | 14 | 14 | 136 |


Rydyn ni wedi cymharu'r data o Fusion ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

- Datganodd 39.0% o staff yn 2024/25 nad oedd ganddyn nhw unrhyw sgiliau Cymraeg, o'i gymharu â 43.5% yn 2023/24.
- Ni wnaeth 35.1% o staff gofnodi unrhyw sgiliau Cymraeg yn 2024/25, o'i gymharu â 40.8% yn 2023/24.

Mae'r newidiadau hyn hefyd yn adlewyrchu'r gwaith y mae AD yn ei wneud i annog staff i ddiweddaru eu manylion personol ar Fusion yn ogystal â gwaith hyrwyddo ar yr Asesiad Sgiliau Cymraeg ar wahân.

Mae'r canrannau ar gyfer sgiliau Cymraeg Sylfaenol, Cymwys, Da a Rhugl ar draws y pedwar cymhwysedd wedi cynyddu rhywfaint, gan adlewyrchu'r gostyngiad mewn 'Dim' a Heb eu cofnodi, wrth i staff gofnodi eu sgiliau Cymraeg yn fwy cywir.

Dyma'r dadansoddiadau ar gyfer sgiliau Sylfaenol a sgiliau Rhugl ar gyfer pob cymhwysedd, i ddangos y cynnydd o ffigurau 2023/24 i ffigurau 2024/25:



Rydym yn parhau i hyrwyddo a monitro'r Asesiad Sgiliau. Ein nod yw anfon negeseuon wedi'u targedu o bryd i'w gilydd am gyrsiau Cymraeg at staff sydd wedi adrodd nad oes ganddyn nhw unrhyw allu iaith Gymraeg, na sgiliau Cymraeg sylfaenol.

## Hyfforddiant Cymraeg

**Safon 170 (2b)**

Rhaid i ni adrodd ar nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant ac i ba lefel neu radd o hyfedredd.

Dan Safon 128, mae'n rhaid i'r Awdurdod gynnig rhaglenni hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y cyrsiau canlynol os ydynt hefyd yn cael eu cynnig yn Saesneg:

- Iechyd a diogelwch ar gyfer rheolwyr
- Sefydlu corfforaethol
- Rheoli perfformiad
- Cwrs sefydlu rheoli corfforaethol

O'r cyrsiau a gynigir yn Gymraeg, ni ofynnwyd am unrhyw un yn Gymraeg gan aelodau o staff yn yr adrannau Datblygu a Dysgu Sefydliadol; Codi a Chario na'r Gwasanaethau Cymdeithasol. O'r herwydd, roedd presenoldeb yn 0% ar gyfer staff a oedd yn cwblhau'r cyrsiau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwnaethon ni gyflwyno cwrs newydd Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar iDev a oedd ar gael i bob aelod o staff ei gyrchu. Yn flaenorol, dim ond i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yr oedd ar gael. Cwblhaodd cyfanswm o 8 person y cwrs yn 2024/25.

## Cymraeg Gwaith

Mae'r Cydlynydd Cymraeg Gwaith yn darparu dosbarthiadau ar bob lefel drwy gydol yr wythnos, yn ogystal â sesiynau blasu byr, digwyddiadau cymdeithasol, a boreau coffi wythnosol ar Zoom.

Mae'r Cydlynydd Cymraeg Gwaith yn rhannu newyddion o ganolfan Dysgu Cymraeg y Fro ym mhob dosbarth yn ogystal ag ar dudalen Yr Hwb. Bu nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol eleni gan gynnwys nosweithiau cyri a chwis, ac roedd dysgwyr o bob rhan o'r cyngor ar bob lefel yn bresennol.

Cawson ni drafferth gyda niferoedd isel ar gyfer ein cyrsiau Iaith Gwaith yn 2024/25. Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wrthym ym mis Awst 2024 fod perygl y gallen ni golli ein cyllid Iaith Gwaith. Yn dilyn hynny, gwnaethon ni lunio adroddiad ar gyfer y Tîm Arweinyddiaeth Strategol ym mis Medi 2024 i dynnu sylw at y sefyllfa ac argymell camau gweithredu i geisio mynd i'r afael â'r materion. Gwnaethon ni siarad mewn cyfarfodydd rheoli hefyd i annog rheolwyr i gefnogi staff sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg. Byddwn yn darganfod yn Chwarter 1 2025/26 a fydd cyllid Iaith Gwaith yn parhau. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau presennol yn edrych yn addawol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo cyrsiau Cymraeg ac annog cymaint o staff â phosibl i ymgymryd â chyrsiau Cymraeg.

Mae ein cyrsiau Iaith Gwaith yn dechrau ym mis Medi yn bennaf, yn unol â'r flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, mae rhai cyrsiau wedi dechrau ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd sawl cwrs ar yr un lefel sy'n rhedeg ar wahanol adegau yn ystod yr wythnos i sicrhau'r presenoldeb gorau posibl.

Gwnaethon ni gynnig cyrsiau newydd ar lefelau Mynediad a Sylfaen ym mis Ionawr 2025. Gwnaethon ni ohirio'r cyrsiau tan fis Mawrth oherwydd diddordeb isel. Erbyn mis Ebrill 2025, nid yw'r naill ddosbarth na'r llall wedi dechrau gan nad oedd digon o ddiddordeb: dim ond un person a gofrestrodd ar gyfer pob dosbarth. Rydyn ni'n parhau i gynllunio a hyrwyddo cyrsiau i sicrhau bod staff y Cyngor yn dysgu Cymraeg ym mis Medi 2025.

### Gwybodaeth – ym mis Ebrill 2024

| Lefel | Nifer cofrestru | Dyddiad wedi dechrau |
|---|---|---|
| Entry / Mynediad | 7 | 12/09/2023 |
| Foundation / Sylfaen | 7 | 22/09/2023 |
| Intermediate / Canolradd | 4 | 21/09/2023 |

| | | |
|---|---|---|
| Advanced / Uwch 1 | 4 | 20/09/2023 |
| Proficiency / Gloywi | 3 | 21/09/2023 |
| Entry / Mynediad | 3 | 03/01/2024 |
| Foundation / Sylfaen | 7 | 02/01/2024 |
| Proficiency / Gloywi | 1 | 11/01/2024 |
| Entry / Mynediad | 4 | 12/02/2024 |
| Proficiency / Gloywi | 1 | 11/04/2024 |

Gwnaethon ni gynnig y cyrsiau Gloywi fel cyrsiau byr 10 wythnos yn 2024 i weld a fyddai hyn yn annog ymateb gwell. Nid oedd mwy o bobl yn cofrestru ar y cwrs nag o'r blaen.

## Gwybodaeth dosbarth am 2024 / 2025

**Cyrsiau wedi'u cwblhau erbyn mis Mawrth 2025**

- ➔ Mynediad – cwblhaodd un aelod o staff y cwrs Mynediad adeg Nadolig 2024 a symudodd i'r dosbarth Sylfaen ym mis Ionawr 2025.

- ➔ Sylfaen – o'r dosbarth a ddechreuodd ym mis Ionawr 2024, symudodd y saith aelod ymlaen i ddosbarth Canolradd ym mis Ionawr 2025.

- ➔ Canolradd – cwblhaodd un gweithiwr y cwrs yn Haf 2024 a symudodd i'r cwrs Uwch ym mis Medi 2025.

| Dosbarth / lefel | Nifer staff y Cyngor sy’n mynychu | Nifer staff y Cyngor a dechreuoedd | Gwybodaeth arall |
|---|---|---|---|
| Entry / Mynediad CM1 | 7 | 13 | |
| Entry / Mynediad CM2 | 4 | 6 | Dosbarth wedi cau gan nad oedd yn hyfyw – dysgwyr wedi'u trosglwyddo |
| Foundation / Sylfaen CS1 | 4 | 8 | Dosbarth wedi cau gan nad oedd yn hyfyw |
| Intermediate / Canolradd CC1 | 11 | 12 | Dechreuodd Ionawr 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Advanced / Uwch UW1A | 2 (+ 4 o'r cymuned) | 2 (+ 7 o'r cymuned) | Gorffen ym mis Mehefin 2025 |
| Proficiency / Gloywi | 1 (+ 6 o'r cymuned) | 6 (+6 o'r cymuned) | Gorffen ym mis Mehefin 2025 |

## Trosolwg

| Blwyddyn | Nifer o staff y Cyngor sy wedi gorffen cwrs / ar y rhestr (2024 / 2025 yn unig) | Targed |
|---|---|---|
| 2022 / 2023 | 58 | 58 |
| 2023 / 2024 | 38 | 64 |
| 2024 / 2025 | 29 | 64 |

Roedd rhai aelodau o staff yn parhau i ddysgu Cymraeg yn y gymuned gyda Dysgu Cymraeg y Fro. Mae'r cyrsiau hyn yn dal i gael eu hariannu'n llawn, a gall staff barhau i fynychu yn ystod amser gwaith. Dewisodd rhai staff aros mewn dosbarthiadau cymunedol oherwydd cyflymder astudio arafach, gan eu bod yn gyfarwydd â'u dosbarth a'u cyd-ddisgyblion presennol, neu oherwydd ymrwymiadau gwaith. Oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, ni chafodd unrhyw ddosbarthiadau newydd eu cynnig ym mis Ionawr 2024, Pasg 2024 na mis Ionawr 2025.

Ar hyn o bryd mae 7 aelod o staff yn dysgu Cymraeg yn y gymuned gyda Dysgu Cymraeg y Fro:

| Lefel | Nifer o staff |
|---|---|
| Mynediad/Entry | 2 |
| Sylfaen/Foundation | 1 |
| Canolradd/Intermediate | 1 |
| Uwch/Higher | 2 |
| Glowyi/Proficiency | 1 |

Mae nifer o staff hefyd wedi mynychu sesiynau Sadwrn Siarad yng Nghanolfan Ddysgu Palmerston i ymarfer eu Cymraeg sgyrsiol, cwrdd â dysgwyr a siaradwyr Cymraeg eraill, a mynychu sesiynau adolygu cyn arholiadau.

Two members of staff currently on the Advanced / Uwch attended the Use Welsh course at Nant Gwrtheyrn in North Wales. This five-day residential course is fully funded by Work Welsh and provides an immersive Welsh experience, which both staff members found invaluable to their Welsh learning and ability to use Welsh in the workplace.






## Cyflawniadau a Chydymffurfio

### Wefan

Mae golygydd y wefan yn atgoffa am gyfieithiad Cymraeg cyn y gellir diweddaru tudalennau Saesneg, gan sicrhau bod y wefan yn gwbl ddwyieithog.

Mae adolygiad o dudalennau gwe hanesyddol ar y gweill gan dîm golygydd y we i sicrhau bod pob tudalen, dewislen a ffurflen yn gwbl weithredol ac wedi eu cyfieithu'n gywir.




### Hyb Cymraeg

Ym mis Medi 2024, gwnaethon ni lansio tudalen newydd ar ffurf hyb ar Staffnet+ sy'n ymroddedig i bopeth Cymraeg. Gall holl staff corfforaethol ac ysgol gael mynediad i'r Hyb o gyfrifiaduron a dyfeisiau personol y Cyngor.

Mae Hyb Cymraeg yn casglu'r holl wybodaeth am wasanaeth cyfieithu Cymraeg y Cyngor, Safonau'r Gymraeg, a chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, mewn un hyb ar-lein. Gwnaethon ni gynnwys llawer mwy o arweiniad, esboniad, a gwybodaeth nag o'r blaen. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i staff ddod o hyd i'r wybodaeth gywir ac yn helpu i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n well â Safonau’r Gymraeg.

Gallwch fynd i’r Hyb yma:




## Cyfrathebu

Mae Staffnet+ yn dwyieithog ac ar gael i staff ar ddyfeisiau personol gan ganiatáu mynediad at wybodaeth am eitemau newyddion mewnol, slipiau cyflog, swyddi gwag mewnol, a rhai polisïau.

Mae'r Prif Weithredwr yn anfon neges wythnosol a chrynodeb o newyddion i'r holl staff ar ddiwedd pob wythnos. Anfonir hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn anfon e-byst rheolaidd at holl staff Bro Morgannwg gyda rhybuddion a newyddion.  Mae’r rhain yn cael eu hanfon yn Gymraeg a Saesneg.




## Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol

Mae prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, yn ogystal a chyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram eraill, yn cael eu gweithredu ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae 153 dilynwyr gyda’r cyfrif Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook.








Mae 626 dilynwyr gyda'r cyfrif [Cyngor Bro Morgannwg](https://x.com/CBroMorgannwg) ar X (Twitter).

Mae nifer y dilynwyr Facebook wedi cynyddu ers y llynedd ac mae nifer y dilynwyr ar X / Twitter wedi gostwng. Mae hyn yn adlewyrchu dirywiad cyffredinol yn y defnydd o X / Twitter. Cyhoeddodd y Cyngor ym mis Ebrill 2025 na fydden nhw'n defnyddio X / Twitter mwyach.

Cafodd cyfrifon Instagram corfforaethol y Cyngor eu lansio ym mis Tachwedd 2024. Mae cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân sy'n rhannu'r un postiadau, yn yr iaith briodol.

Mae 22 dilynwyr gyda'r cyfrif [@cbro_morgannwg](https://www.instagram.com/cbro_morgannwg) ar Instagram.



Mae gan Gyngor Bro Morgannwg gyfrif LinkedIn corfforaethol hefyd, gyda dros 11,000 o ddilynwyr. Mae'r holl bostiadau yn ddwyieithog, gyda thestun Cymraeg a Saesneg yn yr un post.




## Canolfan Gyswllt a Phrif Dderbynfeydd

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig opsiwn i bob galwr wneud ei ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r brif dderbynfa'n cael ei staffio'n ddyddiol gan gynrychiolwyr gwasanaethau cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg.

## Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg

Yn unol â cham gweithredu 3.14, adolygwyd Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-2027 ar ddiwedd Blwyddyn 2 yn 2024.

Gwnaethon ni siarad â phartïon â diddordeb drwy gyfarfodydd Fforwm y Fro a gynhaliwyd yn 2024. Gwnaethon ni siarad ag adrannau, timau a sefydliadau sydd â diddordeb penodol neu a enwyd fel partïon â chyfrifoldeb hefyd.  Gwnaethon ni wahodd partïon â diddordeb a chyrff cyfrifol i gwblhau arolwg am Gynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg i roi adborth ar eu camau gweithredu: a ydynt yn hapus gyda'u camau gweithredu, a fyddent yn newid unrhyw beth, beth y byddent yn ei newid, a thystiolaeth i gefnogi newid.

Rydyn ni wedi ystyried amcanion lles y Cynllun Corfforaethol newydd wrth adolygu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

## Safonau Llunio Polisi

Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg arweiniad ac adnoddau pellach am y Safonau Llunio Polisi, yn dilyn seminar a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2023. Rydym wedi llunio ein nodiadau cyfarwyddyd ein hunain ar y Safonau Llunio Polisi sydd ar gael i'r holl staff, rheolwyr ac arweinwyr.

Prif egwyddor y Safonau Llunio Polisi yw dangos ymdrech gydwybodol i asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Er mwyn ein helpu i gydymffurfio, rydym wedi ychwanegu adran newydd at ein ffurflen ymgynghori ac ymgysylltu yn ogystal â chwestiynau asesu'r effaith ar y Gymraeg at ein ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## Safonau Recriwtio

Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg seminar gyngor arall ym mis Gorffennaf 2023 ar y Safonau Recriwtio. Rydym wedi llunio ein nodiadau cyfarwyddyd ein hunain ar y Safonau Recriwtio ac wedi rhannu'r rhain gyda chydweithwyr yn Adnoddau Dynol i sicrhau bod arferion recriwtio Bro Morgannwg yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol.

Mae'r canllawiau yn esbonio'r safonau perthnasol, yn rhestru'r arferion sy'n arwain at recriwtio llwyddiannus, ac mae'n gwneud awgrymiadau ar gyfer lle y gallem wella ein prosesau recriwtio.


Gwnaethon ni ddatblygu ein canllawiau ymhellach yn 2024 i gynnwys fframwaith sgiliau Cymraeg a chanllawiau ynghylch asesu gofynion Cymraeg swyddi gwag.

Gwnaethon ni ddarparu adborth ar y Strategaeth Pobl ddiwygiedig a'r Strategaeth Recriwtio a Chadw i adlewyrchu'r safonau recriwtio.


## Cytundeb Cyfieithu

Mae gan y Cyngor gontract gyda Chyngor Caerdydd ar gyfer yr holl waith cyfieithu Cymraeg drwy eu tîm Caerdydd Ddwyieithog. Mae staff y Fro yn defnyddio porth ar Staffnet i anfon dogfennau i'w cyfieithu a gwneud ceisiadau am gyfieithu ar y pryd.

Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, cafodd 2,840 o ddogfennau eu cyfieithu ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg sydd 792 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Cyfieithwyd cyfanswm o 2,133,052 o eiriau yn ystod y cyfnod hwn sy'n ostyngiad o 25% ar y flwyddyn flaenorol.





Y gost o gyfieithu'r dogfennau i'r Gymraeg ar gyfer 2024/25 oedd £159,978.90. Mae hyn £53,779.36 yn llai na 2023/24.





Mae gennym ddyletswydd ar draws y Cyngor i leihau costau, ac yn anffodus, mae'r gyllideb cyfieithu Cymraeg yn gost sylweddol. Bu gostyngiad eleni sy'n awgrymu bod staff yn fwy cydwybodol wrth anfon eitemau i'w cyfieithu neu hyd yn oed yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg eu hunain. Rydym yn hyderus ein bod yn bodloni'r Safonau Cymraeg perthnasol o ran cyfieithu.

Maes sydd wedi cynyddu yw cyfieithu ar y pryd. Mae'r gost ar gyfer hyn yn 2024/25 wedi cynyddu i £10,756.38 o £875 yn 2022/23 a £2659.64 yn 2023/24. Mae hwn yn gynnydd o 75%. Mae cyfieithu ar y pryd bellach yn cynrychioli dros 6.5% o'r costau cyfieithu. Er ei bod yn gadarnhaol gweld mwy o Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cyfarfodydd, mae hwn yn faes y byddwn yn parhau i'w fonitro i sicrhau nad ydym yn colli'r arbedion sydd wedi'u gwneud yn y gyllideb gyfieithu. Mae angen i ni sicrhau bod staff ac aelodau'r cyhoedd yn gallu manteisio ar gyfarfodydd yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni Safonau'r Gymraeg, tra'n ystyried arbedion ariannol.

Mae'r siart hon yn dangos sut mae costau cyfieithu ar y pryd wedi cynyddu o sero ym mhob chwarter yn 2021/22.




Mae cyfanswm y tâl am gyfieithu i'r Gymraeg gan gynnwys dogfennau a chyfieithu ar y pryd wedi gostwng o 2023/24 i 2024/25 eto, ond mae cyfran y cyfieithu ar y pryd wedi cynyddu:



## Cyfieithu Cyflym

Yn ystod 2024/25, gwnaethon ni weithio ar brosiect i edrych ar ddefnyddio cyfieithu peirianyddol digidol drwy Amazon Web Services. Gwnaethon ni gyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg i egluro pa ddogfennau allai fynd trwy borth cyfieithu digidol a pha ddogfennau fyddai'n parhau i gael eu hanfon at Gaerdydd Ddwyieithog. Gwnaethon ni wirio gyda Chomisiynydd y Gymraeg ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar bob cam. Gwnaethon ni gwrdd ag awdurdodau lleol eraill i ddarganfod sut maen nhw'n defnyddio cyfieithu peirianyddol.
Rydyn ni wedi galw ein hofferyn cyfieithu digidol Cyfieithu Cyflym.




Mae Cyfieithu Cyflym yn offeryn cyfieithu digidol. Mae'n gallu dychwelyd cyfieithiadau hirach o fewn pymtheg munud a rhai eitemau ar unwaith, sy'n golygu nad oes aros hir am gyfieithiadau. Gall hyn helpu i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cwblhau'n gyflymach a bod cyfathrebu â chwsmeriaid yn haws.

Mae'r offeryn ar gael i holl staff y Cyngor sydd â sgiliau Cymraeg da i rugl. Rhaid i ddefnyddwyr brawfddarllen unrhyw gyfieithiadau sy'n cael eu dychwelyd trwy Cyfieithu Cyflym felly mae angen iddyn nhw fod â sgiliau darllen a deall Cymraeg ddigon da.

Er mwyn adnabod siaradwyr rhugl, gwnaethon ni ofyn i'r holl staff gwblhau'r Asesiad Sgiliau Cymraeg. Yna byddwn yn gwahodd staff sydd â'r sgiliau Cymraeg priodol i gwblhau sesiwn hyfforddi fer ar iDev cyn rhoi mynediad i Cyfieithu Cyflym.
Gall staff ddewis p'un a ydyn nhw'n defnyddio Cyfieithu Cyflym ar gyfer eu gwaith eu hunain neu ar ran eu tîm. Rydyn ni'n falch y byddwn yn gallu lansio'r offeryn ym mis Ebrill 2025.

Byddwn yn monitro bilio Cyfieithu Cyflym bob chwarter ochr yn ochr â thaliadau Caerdydd Ddwyieithog i asesu arbedion. Ein nod yw nodi timau targed o fewn y Cyngor i ddefnyddio Cyfieithu Cyflym, megis timau sydd â chostau cyfieithu uchel.

### Gwiriwr sillafu a throedynnau e-bost Cymraeg

Mae holl staff y Cyngor wedi derbyn copi o 'Cysgeir' ar eu cyfrifiaduron. Mae'r meddalwedd sy'n galluogi staff i gyfathrebu'n haws yn Gymraeg ac i deimlo'n hyderus am eu gramadeg.

Rydym wedi trefnu i holl staff y cyngor gael troedyn dwyieithog gyda'u teitlau swydd a chael negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog. Ychwanegwyd logo amlwg hefyd at enwau'r rhai hynny sy'n rhugl yn y Gymraeg a logo arall i nodi aelodau staff sy'n dysgu Cymraeg.  Yn ogystal, mae staff a dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn gallu gwisgo cortyn gwddf neu fathodyn pin i nodi eu sgiliau pan fyddant yn y swyddfa.

### Adolygiad o'r Polisi a'r Strategaeth Caffael

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi datblygu ei Bolisi a'i Strategaeth Gaffael newydd. Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfran fawr o'i adnoddau ar gaffael. Mae'r ffordd yr ydym yn caffael ein nwyddau a'n gwasanaethau'n chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol ac felly, mae'r Polisi a'r Strategaeth Caffael yn canolbwyntio ar werth cymdeithasol, arferion moesegol, cefnogi cyflogaeth leol a'r economi leol, a gweithredu newid hinsawdd.

Mae'r polisi bellach yn cynnwys adran o'r enw Diwylliant a Threftadaeth Fywiog Cymru. Mae'r adran hon yn esbonio sut mae'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn nodi ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo'r defnydd o iaith, treftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae'r polisi yn rhestru disgwyliadau cyflenwyr yn y cyd-destun hwn, gan gynnwys:

- Mae'r cyflenwr yn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau perthnasol o dan Hysbysiad Cydymffurfiaeth Iaith Gymraeg y Cyngor – Adran 44 Mesur y

Gymraeg (Cymru) 2011, yn enwedig yr elfennau hynny o'r cynllun sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Gweler Cynnig am Gontractau a Grantiau: Ystyriaethau'r Gymraeg.

- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chefnogi cyfleoedd i'w staff a/neu'r gymuned ehangach ddatblygu a/neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

## Cyfleusterau

Mae'r tîm Cyfleusterau yn parhau i wirio ac adolygu arwyddion ar draws adeiladau'r Cyngor a meysydd parcio i sicrhau bod yr holl arwyddion dwyieithog yn gywir.

## Ymwybyddiaeth ddiwylliannol

Nodwyd Dydd Gŵyl Dewi gyda chennin Pedr a sgwrs Gymraeg yn nerbynfa'r Swyddfeydd Dinesig. Rhannwyd ryseitiau Cymraeg a manylion cyrsiau Cymraeg Gwaith. Cynhaliodd Cyngor Tref y Barri ddigwyddiad ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi yn Sgwâr y Brenin, y Barri.

Nodwyd Dydd Gŵyl Dewi yn 2025 gan rhannu erthygl am weithredu i hyrwyddo'r Cymraeg. Edrychwch a'r erthygl yma. Hefyd, rhannwyd manylion am ddigwyddiadau Cyngor Tref y Barri.

I nodi Diwrnod Hawliau'r Gymraeg ym mis Rhagfyr, gwnaethom rannu cynllun 'Defnyddia dy Gymraeg' Comisiynydd y Gymraeg, sy'n annog pobl i ddefnyddio eu Cymraeg.




Gwnaethon ni fanteisio ar y cyfle i hyrwyddo'r Hyb Cymraeg a'r cyrsiau Iaith Gwaith, gan ofyn i staff feddwl am y gwasanaethau y gall preswylwyr eu defnyddio yn Gymraeg.

## Mwy Na Geiriau

Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu pum mlynedd Mwy na Geiriau yn 2022.  Rydym wedi defnyddio hyn fel sail i'n cynllun gweithredu ein hunain.  Mae hyn wedi cael ei ystyried a'i drafod gan gydweithwyr yn Cydraddoldeb ac yn Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2024/25.

Gwnaethon ni weithio ar nifer o gamau gweithredu o'r cynllun gweithredu Mwy na Geiriau drwy lansio'r Hyb Cymraeg. Hyrwyddodd staff y Gwasanaethau Cymdeithasol y modiwl hyfforddi Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar iDev yn ogystal â rhannu gwybodaeth arall am y Gymraeg a chyrsiau Cymraeg drwy gylchlythyr y sector.

## Dysgu Cymraeg y Fro

Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn cyflwyno gweithgareddau ar ran Cyngor Bro Morgannwg ac wedi'u rhestru'n amlwg yng nghynllun gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae Dysgu Cymraeg y Fro wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer siaradwyr Cymraeg, teuluoedd a dysgwyr ym Mro Morgannwg yn 2024/25. Cynhelir y rhain drwy gydol y flwyddyn i nodi Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen, y Pasg, y Nadolig a'r haf. Cynhelir rhai digwyddiadau ar-lein dros Zoom, ac mae rhai yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Palmerston yn y Barri neu leoliadau eraill yn y Fro.

Mae sesiynau gweithgareddau dydd Gwener yn cael eu cynnal mewn lleoliadau ledled y Fro bob yn ail fis a'u nod yw cael dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg. Mae croeso i ddysgwyr a siaradwyr fynychu Caffi Cymraeg, boreau coffi rheolaidd sy'n cael eu cynnal ledled y Fro, yn ogystal â Sgwrs Dros Fwyd lle mae dysgwyr uwch yn cwrdd dros bryd nos i gymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun gwahanol.










Mae digwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn cael eu hyrwyddo gan y Cydlynydd Cymraeg Gwaith ar gyfer staff y Cyngor ar yr Hyb Cymraeg.

Dyma amrywiaeth o ddigwyddiadau o'r flwyddyn hon:

















Dysgu Cymraeg y Fro yn cyflwyno cyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned. Mae llai o bobl rhwng 18 a 25 oed yn dysgu Cymraeg yn y gymuned gyda Dysgu Cymraeg y

Fro ar hyn o bryd na'r llynedd, sy'n adlewyrchu llai o ddysgwyr ar draws pob dosbarth addysg oedolion.

Lluniodd Dysgu Cymraeg y Fro brosbectws 2024/25 i ddiwallu anghenion dysgwyr Cymraeg yn well, yn seiliedig ar wersi a gafodd eu dysgu o'r flwyddyn flaenorol a'r data a gafodd ei gasglu ynglŷn â pherfformiad cyrsiau'r flwyddyn flaenorol. Roedd cynnydd o bron i 20% mewn cofrestriadau ers y llynedd, sy'n dangos bod mwy o drigolion yn gallu dod o hyd i gyrsiau ac yn dymuno dysgu Cymraeg.


Mae Dysgu Cymraeg y Fro hefyd yn darparu cymorth a chefnogaeth i staff sy'n ymgymryd â chyrsiau Cymraeg Gwaith. Mae hyn yn cynnwys cymorth gweinyddol ar gyfer hunan-astudio, dosbarthiadau adolygu, ac ymarfer ar gyfer arholiadau. Mae gan ddysgwyr Cymraeg Gwaith fynediad at yr un cyfleusterau a darpariaeth â dysgwyr yn y gymuned ac mae'r cyfleoedd i gwrdd â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg eraill yn amhrisiadwy, yn gynnwys tryw’r sesiynau Sadwrn Siarad.













**Uchelgeisiau**

Gwnaeth Dysgu Cymraeg y Fro gais llwyddiannus i gael ei gynnwys yn Fframwaith Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer y Gweithlu Addysg.

Gwnaeth Dysgu Cymraeg y Fro gais i gronfa Iechyd a Gofal y Ganolfan Genedlaethol i wella sgiliau Cymraeg staff Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro mewn ysbytai, canolfannau iechyd, a derbynfeydd meddygfeydd. Enillodd Dysgu Cymraeg Caerdydd y cais hwn.

Gwnaeth tîm Dysgu Cymraeg y Fro dreialu prosiect gydag Ysgol y Ddraig yn Llanilltud Fawr i wella sgiliau Cymraeg rhieni disgyblion. Bydd y prosiect hwn yn parhau o dan gynllun Cymraeg yn y Cartref y Ganolfan Genedlaethol ac mae'r tîm yn bwriadu iddo ddod yn brosiect blwyddyn o hyd sy'n cynnwys holl ysgolion Llanilltud Fawr a thu hwnt yn y Fro drwy gydol 2025/26.

## Menter Bro Morgannwg

Mae Menter Bro Morgannwg yn bartner gwerthfawr i Gyngor Bro Morgannwg wrth ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau Cymraeg i bobl ar draws y sir. Mae ganddynt gyfrifoldeb am nifer o gamau gweithredu yn ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ac rydym yn ddiolchgar am bopeth a wnânt i gyrraedd y targedau hyn o dan gyfyngiadau ariannol tynn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn niweddariad 2023/24 o gynllun gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

**Teuluoedd a phlant**

Mae gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn dechrau cyn gynted â phosibl gyda ioga beichiogrwydd, dosbarthiadau synhwyraidd i fabanod, a sesiynau chwarae blêr.






Elfen allweddol o'r rhaglen ymgysylltu â theuluoedd cyn ysgol yw'r sesiynau Amser Stori mewn llyfrgelloedd ar draws y sir. Mynychodd dros 3,000 o blant ac oedolion dros y flwyddyn, gyda dros 1,048 o blant a 760 o rieni/oedolion yn mynychu sesiynau Amser Stori.

Mae'r sesiynau'n cynnig cyfle i gyflwyno llawer o rieni nad ydyn nhw’n siarad Cymraeg i amgylchedd Cymraeg ac i glywed y Gymraeg yn rheolaidd am y tro cyntaf. Trefnodd Menter hefyd i benaethiaid ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol ddod i sesiynau i ddechrau cyflwyno'r syniad o addysg Gymraeg a meithrin cysylltiadau rhwng y gymuned ac ysgolion. Mynychodd y dosbarth meithrin o Ysgol Dewi Sant yn Llanilltud Fawr sesiwn Amser Stori ym mis Mai 2024 hefyd. Cafodd sesiynau Amser Stori arbennig eu cynnal adeg y Nadolig.






Cynhaliodd Menter Bro Morgannwg arolwg bach ym mis Hydref 2024 i roi cipolwg ar feddyliau rhieni a gwarcheidwaid am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae canlyniadau'r arolwg yn datgelu mewnwelediadau diddorol i ddewisiadau a phrofiadau rhieni. Mae mwyafrif yr ymatebwyr (17) yn meddwl am ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, tra bod 7 yn meddwl am ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae dosbarthiad iaith gartref yn dangos bod 17 o deuluoedd yn siarad Saesneg yn unig, 11 yn ddwyieithog, a 3 yn siarad Cymraeg yn unig. Dywedodd un rhan o bump o'r ymatebwyr fod y sesiynau Amser Stori wedi dylanwadu ar eu dewis o addysg cyfrwng Cymraeg.

Cafodd digwyddiadau teuluol eu cynnal drwy gydol y flwyddyn. Mynychodd dros 200 o blant ac oedolion barti Dydd Gŵyl Dewi a pharti Pasg. Roedd y parti jamborî Nadolig mewn cydweithrediad â Dysgu Cymraeg y Fro.










Mae Menter Bro Morgannwg yn darparu Bwrlwm – sesiynau chwarae Cymraeg am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol mewn lleoliadau ledled Bro Morgannwg. Mae Menter yn nodi bod y galw am Bwrlwm yn fwy na'r ddarpariaeth, ond mae'r arian sydd ar gael yn cyfyngu ar nifer y sesiynau mae modd eu darparu. Mae nifer dda o blant yn mynychu'r sesiynau sy'n cynnwys sesiynau celf a chrefft, a chwaraeon mewn cysylltiad â'r Urdd. Mynychodd cyfanswm o 480 o blant sesiynau hanner tymor mis Hydref a Chwefror, gan roi cyfle amhrisiadwy i blant ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol y tu allan i amser ysgol.













Cafodd clwb celf a chrefft ei gynnal yn ystod tymor ysgol yn Ysgol Dewi Sant yn Llanilltud Fawr mewn cysylltiad â Thîm Datblygu Chwarae'r Fro.

Cafodd amrywiaeth o weithdai creu barcud creadigol eu cynnal mewn ysgolion Cymraeg ledled y sir yn y cyfnod cyn Gŵyl Fach y Fro.

Cymerodd disgyblion ysgolion cynradd ym mhob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ran mewn sesiynau dawnsio a symud gyda choreograffydd lleol i berfformio cân newydd a gafodd ei hysgrifennu ar gyfer yr achlysur gan Caryl Parry Jones. Cafodd y gân, Plant y Fro, ei pherfformio yng Ngŵyl Fach y Fro.

Bu pob ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg yn cystadlu yn y cwis "Dim Clem" am y tro cyntaf, yn dilyn penderfyniad Menter i ymweld â phob ysgol i weinyddu'r cwis. Gwnaeth dros 210 o ddisgyblion Blwyddyn 5 o'r sir gystadlu, gyda 2 dîm yn symud ymlaen i'r rownd ranbarthol.

**Pobl Ifanc**

Gwnaeth swyddog datblygu Menter a fu'n gweithio gyda'r grŵp oedran ysgol uwchradd adael yn ystod 2024/25 felly daeth hi'n anodd gyflwyno ystod lawn o weithgareddau.

Darparodd Gŵyl Fach y Fro gyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth i ddisgyblion Blwyddyn 12/13 o Ysgol Bro Morgannwg, yn ogystal â llwyfan i berfformwyr ieuenctid. Gwnaeth gweithdai cerddoriaeth gyda disgyblion Blwyddyn 8/9 o Ysgol Bro Morgannwg helpu i baratoi dau fand i berfformio yng Ngŵyl Fach y Fo.




Bu Mentrau Iaith Rhanbarthol yn cydweithio i hyrwyddo cyfres o gigs ieuenctid yng Nghlwb Ifor Bach yng Nghaerdydd, fel rhan o Tafwyl.

Gwnaethon ni ymestyn ein cynllun 'Ewch i Weld' i ddisgyblion chweched dosbarth yn ail hanner y flwyddyn. Yn dilyn cynllun treialu llwyddiannus ymhlith dysgwyr, gwnaethon ni ddefnyddio cyllid grant gan Gyngor Tref y Barri i alluogi disgyblion chweched dosbarth i fynychu gig gyda Gwilym Bowen Rhys am ddim.


Gweithiodd Menter Bro Morgannwg gyda phartneriaid eraill i gynnal ffair gyrfaoedd yn Ysgol Bro Morgannwg yn 2024. Cafodd dros ddeg o bobl ifanc gyfle i weithio yng nghynlluniau gwyliau Bwrlwm.

Gwnaethon ni weithio'n agos gyda disgyblion chweched dosbarth i drefnu dathliad o'r Fari Lwyd yn y Bont-faen. Am y tro cyntaf eleni, cafodd y cyfrifoldeb o arwain y Fari a pherfformio'r penillion traddodiadol ei drosglwyddo i'r disgyblion hyn. Roedd hyn yn cynnwys dysgu cyfres o ganeuon newydd, gan sicrhau bod yr hen draddodiad yn cael ei drosglwyddo i genhedlaeth newydd. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu'r grŵp hwn ymhellach yn 2026 i gynnal sesiynau’r Fari mewn hyd yn oed mwy o leoliadau ledled y Fro.

**Oedolion**

Drwy gydweithio â Menter Caerdydd a Dysgu Cymraeg y Fro, mae Menter wedi gallu parhau i ddarparu ystod o ddosbarthiadau a gweithgareddau i oedolion ym Mro Morgannwg. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau a gwibdeithiau, dosbarthiadau ar-lein, boreau coffi rhithwir ac wyneb yn wyneb, a sgyrsiau misol (Sgwrs y Mis). Dechreuodd clwb darllen yn y Barri yn y tymor hydref.

















Cynhaliodd Menter gystadleuaeth i nodi Dydd Santes Dwynwen a hyrwyddo diwrnodau pwysig ar y cyfryngau cymdeithasol, fel Dydd Miwsig Cymru a Diwrnod Shwmae Sumae

**Events**




Gweithiodd Menter gyda'r Ford Gron yn y Bont-faen i drefnu dathliadau'r Fari Lwyd gyda phobl ifanc yn arwain y canu. Daeth mwy na 150 o bobl i'r gynhadledd.

Cafodd digwyddiadau ledled y rhanbarth eu hyrwyddo gan Fenter Bro Morgannwg gan gynnwys Tafwyl yng Nghaerdydd, Ffilifest yng Nghaerffili, a Gŵyl Tawe yn Abertawe. Gwnaeth Menter hefyd hyrwyddo a mynychu digwyddiadau Pride lleol yn y Bont-faen.

Cafodd ddau ddigwyddiad cerddoriaeth cymunedol eu cynnal yn y Barri, un fel rhan o ŵyl ymylol Glastonbarry. Roedd y gig yn nhafarn y Parc yn y Barri yn gyfle i ddarparu'r cynllun 'Ewch I Weld' felly aeth dros 20 o ddysgwyr i'r digwyddiad llawn am ddim.







Ar hyn o bryd nid oes unrhyw leoliadau cymunedol sy'n cynnig gweithgareddau cerddorol drwy gyfrwng y Gymraeg, felly gwnaethon ni gydweithio â lleoliad newydd i ddangos bod digwyddiadau Cymraeg yn gallu llwyddo. Cafodd noson glasurol lwyddiannus iawn ei chynnal ym Mhier Penarth, ac maen nhw wedi mynegi diddordeb mewn cynnal mwy o ddigwyddiadau yn barod.

Yn goron ar y cyfan y mae Menter Bro Morgannwg yn ei gynnig yw Gŵyl Fach y Fro. Mynychodd dros 7,500 o bobl ym mis Mai 2024. Cafodd nifer o brosiectau a gweithdai eu cynnal yn y cyfnod cyn yr ŵyl, gan gynnwys dros 450 o blant yn dysgu cân a dawns a gafodd ei hysgrifennu yn arbennig. Cymerodd tair ysgol cyfrwng Saesneg ran yng Ngŵyl Fach y Fro yn ogystal â thri grŵp cymunedol.







**Cymuned, cydweithio a busnesau**

Gweithiodd Menter yn agos gyda phartneriaeth Addysg Oedolion Caerdydd a'r Fro dros y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu darpariaeth fach ym Mro Morgannwg, a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Hyfforddi athrawon yn y sector ail iaith
- Gweithio gyda rhieni yn y sector cynradd gan ddefnyddio gwersi coginio fel ffordd o gyflwyno'r iaith

Rhaglen o hyfforddiant proffesiynol gan gynnwys diogelu, cymorth cyntaf, a hylendid bwyd Fel rhan o arwain yr ymgyrch Diwrnod Shwmae Su’mae leol, gwnaethon ni lwyddo i berswadio wyth busnes ym Mro Morgannwg i ymuno â'r cynllun "Hapus i Siarad". Yn ogystal, gwnaethon ni ymweld â dwsinau o fusnesau ar draws trefi'r Fro i rannu'r bathodyn 'Cymraeg'.

## Gwasanaethau Ieuenctid

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio'n agos gyda'r Urdd i gynnig cyfle i bobl ifanc gymryd rhan yn Gymraeg mewn gwahanol leoliadau cymdeithasol. Mae'r

Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnig gweithgareddau chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd mewn ysgolion a'r gymuned, mewn cydweithrediad â'r Urdd.

Fel rhan o'r cytundeb gyda'r Urdd, rydyn ni’n cynnal clwb ieuenctid Cymraeg wythnosol yn Y Barri i bobl ifanc 11-17 oed. Rydyn ni’n cynnwys staff yr Urdd mewn darpariaethau cyfrwng Saesneg, fel clybiau ieuenctid a chynlluniau gwyliau ysgol a digwyddiadau sy'n cael eu darparu gan y gwasanaeth ieuenctid. Mae'r cyfleoedd hyn yn caniatáu i bobl ifanc gymryd rhan mewn sesiynau yn ddwyieithog yn ogystal â chwarae gemau a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol Cymraeg.

Cynhaliodd Estyn arolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid yn 2023/24, a chyhoeddi ei adroddiad ym mis Ebrill 2024. Roedd yr adroddiad yn hynod gadarnhaol, gydag un argymhelliad i 'ddatblygu cyfleoedd ar gyfer darparu gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg a dwyieithog'. Yn dilyn yr adroddiad, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cynnal dadansoddiad o sgiliau Cymraeg y gweithlu ac wedi gwneud cynlluniau i wella sgiliau’r gweithlu presennol drwy gyrsiau Iaith Gwaith. Mae adroddiad Estyn hefyd wedi rhoi pwyslais ar ddarparu cyfleoedd dwyieithog yn hytrach na darpariaeth Gymraeg a Saesneg ar wahân. Mae'r newid hwn mewn dull yn adleisio newid mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru hefyd, lle nad yw cyllid yn cael ei neilltuo yn benodol ar gyfer y Gymraeg mwyach.

Cysylltodd y Gwasanaeth Ieuenctid â Menter Bro Morgannwg ddiwedd 2024/25 i drafod cydweithredu yn y dyfodol er mwyn darparu clybiau ieuenctid dwyieithog a gweithgareddau yn gysylltiedig â diwylliant, cerddoriaeth a chelfyddydau Cymru.

## Ysgolion

Mae ysgolion cyfrwng Saesneg ym Mro Morgannwg yn parhau i gyfrannu at hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc. Mae lefel gref o ymgysylltu â chynllun Siarter Iaith, sy'n gadarnhaol iawn o ystyried nad yw'n orfodol. Mae pob ysgol yn y Fro yn cymryd rhan naill ai yn y cynllun Cymraeg Campws neu’r Siarter. Bro Morgannwg sydd â'r nifer uchaf o ysgolion sydd wedi derbyn gwobrau Aur ac Arian yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru.

- Roedd 100% ysgolion cyfrwng Saesneg yn cymryd rhan yn y fframwaith Siarter Iaith.
- Eleni, ennillodd 10 ysgolion cyfrwng Saesneg gwobrau Siarter Iaith: 2 Aur, 6 Arian, ac 1 Efydd.
- Bydd 6 ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu dilysu gan diwedd y tymor haf.
- Ysgolion cyfrwng Cymraeg: 1 Efydd, 5 Arian, 1 aur

Bu pedair ysgol cyfrwng Cymraeg (Ysgol Bro Morgannwg, Ysgol Sant Baruc, Ysgol Sant Curig ac Ysgol Pen-y-Garth) ac un o'n hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr, yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2024 ym Meifod, Powys.

## Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg CSCA

Mae Swyddog y Gymraeg wedi bod yn ei swydd o fis Medi 2023 ac mae'n arwain ar y CSCA ac yn cydlynu'r berthynas rhwng y Cyngor a'r ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Gallwch weld y CSCA ar wefan Bro Morgannwg yma

[Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (valeofglamorgan.gov.uk)]

Mae'r CSCA yn cyd-fynd yn agos â'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i diweddaru felly rydym wedi gweithio i osgoi dyblygu camau gweithredu sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg ac yn hytrach wedi cydweithio i gyfuno gweithredoedd tebyg.

Cafodd y Swyddog Addysg Gymraeg a Fforwm Addysg Gymraeg y Cyngor gyllid grant i gynhyrchu adnoddau gan gynnwys gwefan annibynnol sy'n bwrpasol ar gyfer

hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithrwydd ym Mro Morgannwg. Gwnaethon nhw weithio gyda gwneuthurwr ffilmiau lleol i greu ffilmiau byrion am bob ysgol cyfrwng Cymraeg. Bydd ffilmiau eraill yn cael eu creu yn y dyfodol agos am ddysgu Cymraeg yn y gymuned, y ganolfan drochi Gymraeg, a darpariaeth blynyddoedd cynnar. Bydd y wefan hefyd yn cynnal cyfeiriadur 'Be Sy’ Mlaen' Cymraeg i drigolion.

## Phencampwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol

Gwnaeth y rol Pencampwr yn diwedd ym mis Mawrth 2025, ond mae’r rolyn parhau fel Partneriaeth. Rydym yn parhau i fod yn rhan o'r grŵp Partneriaeth Addysg Gymraeg Rhanbarthol. Yn ogystal, mae Swyddog Addysg Gymraeg y Fro yn eistedd ar y bwrdd llywodraethu. Rydym yn mynychu cyfarfodydd chwarterol ac yn cymryd rhan yng nghynllun gweithredu'r partneriaeth. Rydym wedi cyfrannu gwybodaeth ar gyfer adran Bro Morgannwg ar wefan yr partneriaeth, Cymraeg i Bawb, ac wedi rhoi adborth ar y logo a'r dyluniad.

Cymraeg i Bawb

## Fforwm y Fro

Un o lwyddiannau sylweddol eleni yw creu fforwm Cymraeg newydd, Fforwm y Fro. Cynhaliom arolwg o’r aelodau a wahoddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a chawsom ymatebion cadarnhaol dros ben. Anfonwyd gwahoddiadau ar gyfer y cyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2024, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn syth ar ôl gwyliau'r Pasg ym mis Ebrill 2024.

Mae'r Fforwm yn disodli’r Fforwm Iaith a oedd wedi peidio â chyfarfod. Mae aelodaeth yn cynnwys staff y Cyngor gan gynnwys Swyddog y Gymraeg, y Swyddog Addysg Gymraeg a’r Cydlynydd Cymraeg Gwaith; ysgolion gan gynnwys pob ysgol cyfrwng Cymraeg, Coleg Caerdydd a'r Fro, a'r ganolfan drochi Cymraeg; yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau perthnasol eraill sydd â diddordeb mewn hyrwyddo'r Gymraeg gan gynnwys Menter Bro Morgannwg, Dysgu Cymraeg y Fro, yr Urdd, Merched y Wawr, a’r hyrwyddwr Cymraeg i Bawb rhanbarthol.

## Grwpiau eraill

Rydym yn aelod o Grŵp Deddf.  Mae hwn yn grŵp rhanbarthol o swyddogion y Gymraeg o bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'n rhoi cyfle i rannu profiadau ac arfer da, a meithrin cysylltiadau ar draws y cynghorau hefyd. Mae'r grŵp wedi cynnal seminarau a chynadleddau gyda chyflwyniadau gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Cynhelir cyfarfodydd yn fisol, trwy Teams ac yn bersonol.

Rydym hefyd yn aelod o Rhwydiaith. Mae hwn yn grŵp cenedlaethol o swyddogion y Gymraeg o bob awdurdod lleol yng Nghymru, cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, a sefydliadau cyhoeddus eraill. Mae'r cyfarfodydd yn llai aml na'r Grŵp Deddf.

## Adolygiad Comisiynydd y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal adolygiad anffurfiol o'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg bob blwyddyn. Mae hyn ar ffurf dull 'cwsmer cudd' lle mae swyddog o swyddfa'r Comisiynydd yn profi ein gwasanaethau Cymraeg mewn amrywiaeth o ffyrdd: anfon negeseuon e-bost Cymraeg, gwneud galwadau ffôn Cymraeg, cael mynediad at ffurflenni Cymraeg ar-lein, tudalennau recriwtio, a gwirio ystod o dudalennau gwe Cymraeg. Maent hefyd yn gwirio ein negeseuon cyfryngau cymdeithasol, hysbysebu a marchnata, a'n hunaniaeth gorfforaethol.

Gwnaethom yn dda iawn ar y cyfan, ond nodwyd cwpl o feysydd i'w gwella, yn bennaf o fewn recriwtio. Roedd dau fater bach gyda thudalennau gwe a roedd mater bwysig gyda'r ffonau.

Mae gennym berthynas gadarnhaol gyda'n rheolwr cleientiaid yn swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac yn unol â dull cyd-reoleiddio newydd Comisiynydd y Gymraeg, rydym yn cymryd rhan lawn yn yr adolygiadau hyn ac yn gwerthfawrogi'r canfyddiadau.

## Y camau nesaf

Wrth symud ymlaen ar gyfer 2025/26, byddwn yn canolbwyntio ar rai meysydd allweddol:

- Cynyddu nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg ac sy’n cymryd rhan mewn dosbarthiadau Cymraeg gwaith, er mwyn gwella sgiliau Cymraeg staff.

- Hyrwyddo'r defnydd ar yr Gymraeg ym mhob rhan o’r Cyngor drwy ymgyrch drwyadl a deinamig.

- Codi ymwybyddiaeth o'n rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau dan Safonau'r Gymraeg drwy ganllaw hawdd ei ddefnyddio a diwygio tudalennau gwe.

- Parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr Dysgu a Sgiliau o ran y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

- Ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg wrth iddynt adolygu eu dull rheoleiddio.

- Datblygu Fforwm y Fro ymhellach, creu rhwydwaith a chysylltiadau ar draws pob parti a sefydliad sydd â diddordeb mewn hyrwyddo'r Gymraeg.

- Ystyried postiadau a/neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol dwyieithog yn hytrach na chyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, er mwyn sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn cyrraedd cymaint o drigolion â phosibl.

## Cysylltwch â ni

Ymweld â’n wefan www.bromorgannwg.gov.uk/cy

Anfonwch ebost c1v@valeofglamorgan.gov.uk

Ffoniwch 01446 700111